Lesley Griffiths AC / AM
Gweinidog yr Amgylchedd a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-P/LG/2220/19

Mike Hedges AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

19 Mehefin 2019

Annwyl Mike,

Ysgrifennaf atoch er mwyn rhoi rhagrybudd i chi y byddai'n cynrychioli Llywodraeth Cymru yng nghyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar Ynni a newid Hinsawdd. Caiff y cyfarfod ei gynnal ym Manceinion ar 28 Mehefin 2019.

Mae disgwyl i'r bobl ganlynol fod yn bresennol yn y cyfarfod:

- Llywodraeth y DU - Chris Skidmore AS, Y Gweinidog Gwladol ar gyfer Prifysgolion, Gwyddoniaeth, Ymchwil ac Arloesi a'r Gweinidog Gwladol Dros Dro ar gyfer Ynni a Thwf Glân.
- Llywodraeth yr Alban - Paul Wheelhouse AS, Y Gweinidog dros Ynni, Cysylltedd a'r Ynysoedd.
- Gogledd Iwerddon - Heb ei gadarnhau, cynrychiolaeth swyddogol

Nid yw agenda'r cyfarfod wedi'i chymeradwyo ond byddaf yn manteisio ar y cyfarfod i geisio sbarduno cynnydd o safbwynt datblygu safbwyntiau negodi ar draws y DU mewn perthynas â'n Partneriaeth Economaidd yn y dyfodol â'r Undeb Ewropeaidd. Byddaf yn parhau i bwysleisio'r angen i Lywodraeth Cymru chwarae rhan amlwg yn y trafodaethau ynghylch materion sydd wedi'u datganoli i Gymru. Mae'r cyfarfod hwn hefyd yn creu cyfle i drafod materion a threfniadau sydd wedi'u diweddaru o dan sefyllfa o ddim cytundeb ac i feithrin gwell perthynas â Llywodraeth y DU.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Byddaf yn ysgrifennu Datganiad Ysgrifenedig ar ôl y cyfarfod a fydd yn rhoi crynodeb i'r Aelodau ynghylch y materion a drafodwyd ac yn amlinellu'r safbwyntiau a gafodd eu pwysleisio gan Lywodraeth Cymru.

Cofion,

Lesley Griffiths AC / AM
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs